# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**4 MAWRTH 2015, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** Cyng D I Roberts, N Jones, A Evans, S Hughes, R Edwards, E Williams, A W Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:** Cyng R Davies, G Roberts, Cyng J Evans (Cyngor Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys un aelod newydd Cyng Elfed Williams |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 4 Chwefror 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A Evans yn cynnig a Cyng N Jones yn eilio. |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Eglwys Sant Gredifael** - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru |
| **4.2** | **Dol Fraint, Star (Ilwybr)** - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud nid yw'r Cyngor yn gallu corfodi'r mater oherwydd materion technegol yn y caniatad cynllunio. Mae'r safle yn lle peryg a mae plant ysgol yn cerdded ar hyd y ffordd hwn i dal y bws ysgol. Gofynwyd i'r Clerc dod ar mater at sylw Pennaeth Adran Cynllunio. |
| **4.3** | **Cyflymder Penmynydd** - Bydd y Cyngor Sir yn paratoi adroddiad yn y dyfodol agos. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir i gofyn iddynt ymgynghori a'r Cyngor Cymuned cyn symud ymlaen |
| **4.4** | **Lon Garnedd Isaf** - Mae'r gwaith yn gyflawn |
| **4.5** | **Eglwys Sant gredifael (Y fynwent)** - Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau y byddant yn parhau i gynnal y fynwent. |
| **4.6** | **Beinciau (englyn)** - mae'r Clerc wedi cael tri plât am £40 yr un i gosod ar y beinciau |
| **4.7** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Y Cynllun Adnau** - Mae Cyng Rhys Davies wedi cynnig paratoi sylwadau ar rhan y Cyngor. |
| | |
| **5** | **Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon** |
| | **Llywodraethu Corfforaethol** |
| **5.1** | **Pwyllgor Safonau Cyngor Sir** - Bydd rhaid penodi 2 gynrychiolydd newydd am y cyfnod fydd yn cychwyn ar 18 Rhagfyr 2015 - dim diddordeb |
| | **Priffyrdd** |
| **5.2** | Cyflymder Penmynydd - gweler 4.3 |
| | |
| **6** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **6.1** | Yr Eglwys yng Nghymru - gweler 4.5 |
| | **Llofnod** **Cadeirydd** **07.04.15** |

| | |
|---|---|
| **7** | **MATERION ARIANNOL** |
| **7.1** | Aelodaeth Unllais Cymru £62.00 - Mae yr aelodau yn teimlo bod y tal yn uchel ac nid ydynt yn cytuno a'r ffordd y mae'n cael ei gyfrifo. Gofynwyd i'r Clerc trafod y mater gyda Unllais Cymru |
| | Penderfyniwyd talu y canlynnol: |
| **7.2** | Costau y clerc £91.16 |
| **7.3** | Rhoddion: Papur Menai £40, Awyr Las £100 |
| **7.4** | J Roberts, Archwiliwr Mewnol £42.00 |
| **7.5** | Llangefni Trophies £120.00 |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Adolygu: Rheolau Cyllid, Rheolau Sefydlog, Asesiad Risg, Rheolau Mewnol. Derbyniwyd y rheolau fel y maent yn sefyll am y flwyddyn gyfredol. Bydd adolygiad ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn cael eu cynnal yn y cyfarfod nesaf |
| **8.2** | Y Maes Chwarae (Star) - Cynigodd y Cadeirydd gwneud ymholiadau am grant i'r maes chwarae |
| **8.3** | Cyfarfod nesaf - Mae y cyfarfod nesaf i fod ar y 1 Ebrill. Gan y bydd y Clerc ar ei wyliau, cytunwyd i symud y dyddiad i 7 Ebrill. |
| | **Llofnod** **Cadeirydd** **07.04.15** |